



Gwneud cais am LMA


- ◆ Lwfansau Myfyrrwyr Anabl (LMA)
- ◆ Beth allwn ni ei wneud i chi
- ◆ Beth sydd angen i chi ddod gyda chi
- ◆ Sut gallaf drefnu apwyntiad?
- ◆ Sut mae dod o hyd i ni
- ◆ Rydw i wedi gwneud cais am LMA – beth sy'n digwydd nesaf?

Am ragor o wybodaeth:

Ffôn: 01248 383030

E-bost: assessment@bangor.ac.uk

Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau



◆ Lwfansau Myfyrrwyr Anabl (LMA)

Grant yw'r Lwfans Myfyrrwyr Anabl i helpu i dalu am y costau ychwanegol y gall myfyrrwyr Addysg Uwch eu hwynebu oherwydd anabledd, e.e. cyflwr iechyd parhaus, problemau iechyd meddwl, cyflwr yn y sbectwm awtistiaeth, neu anhawster dysgu penodol megis dyslecsia. Nid oes rhaid talu'r grant hon yn ôl.

◆ Beth allwn ni ei wneud i chi

Gallwn roi cymorth i unrhyw fyfyrwr o Brifysgol Bangor gyda'u cais am LMA. Mae hyn yn cynnwys rhoi cefnogaeth i lenwi'r ffurflen gais, cysylltu â Chofnodion Myfyrrwyr a gallu ateb y rhan fwyaf o gwestiynau fydd gennyh efallai ynghylch y broses LMA.

Byddwn hefyd yn cadw copi o'r ffurflen rhag ofn y bydd yn mynd ar goll yn y post.

◆ Beth sydd angen i chi ddod gyda chi

Cyn y gellwch wneud cais am LMA, bydd angen i chi ddod â chopi o'ch tystiolaeth ddiagnostig neu dystiolaeth feddygol gyda chi, ynghyd â'ch rhif cyfeirio cwsmer. Mae'r rhif hwn i'w gael ar unrhyw lythyr oddi wrth y corff sy'n eich cyllido, megis eich llythyr benthyciad myfyriwr.

◆ Sut gallaf drefnu apwyntiad?

Gallwch wneud apwyntiad i gael cefnogaeth gyda'ch cais drwy gysylltu â ni drwy e-bost neu ar y ffôn. Os ydych wedi gweld Cynghorwr, efallai y bydd ef/hi eisoes wedi trefnu apwyntiad i chi.

◆ Sut mae dod o hyd i ni

Rydym ar lawr cyntaf y brif fynedfa i Neuadd Rathbone (Gwasanaethau Myfyrrwyr). Mae croeso i chi roi galwad i ni, anfon e-bost, neu alw i mewn i wneud apwyntiad.

◆ Rydw i wedi gwneud cais am LMA – beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y byddwch wedi anfon y ffurflen gais, dylech dderbyn llythyr cymhwyster DSA1. Gall hyn gymryd rhwng 10 a 15 diwrnod gwaith i gyrraedd.

Unwaith y byddwch wedi derbyn y llythyr hwn, dylech gysylltu â Chanolfan Fynediad i drefnu apwyntiad i gael Asesiad Anghenion Astudio.

Cyfarfod cyfeillgar ac anffurfiol yw Asesiad Anghenion Astudio rhwng aseswr achrededig a'r myfyriwr. Yn ystod y cyfarfod edrychir yn fanwl ar gwrs y myfyriwr, ar strategaethau ac ar y rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig ag anabledd. Bydd yr aseswr yn cyfuno hyn â'r manylion y bydd wedi eu cael yn y dystiolaeth ddiagnostig, ac yn defnyddio'r holl wybodaeth i benderfynu pa gefnogaeth ac/neu offer y byddai eu hangen i oresgyn y rhwystrau i ddysgu. Bydd yr aseswr yn trafod opsiynau perthnasol o ran cefnogaeth, ac yn dangos technoleg gynorthwyol briodol (e.e. meddalwedd).